# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Deintyddfa Emlyn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 19 Gorffennaf 2017

Dyddiad cyhoeddi: 20 Hydref 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN digidol 978-1-78859-380-9



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ..... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ..... 6

3. Yr hyn a ganfuom ..... 7

   Ansawdd profiad y claf ..... 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ..... 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ..... 18

4. Beth nesaf? ..... 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ..... 21

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... 22

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ..... 23

   Atodiad C – Cynllun gwella ..... 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Emlyn, Teras Lloyd, Adpar, Castellnewydd Emlyn, Ceredigion SA38 9NS, yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 19 Gorffennaf 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Deintyddfa Emlyn yn darparu gofal diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn. Dangosodd staff ddull caredig, parchus a chwrtais o ddarparu gofal a thriniaeth ddeintyddol. Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn hapus ac yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarperid yn y practis
- Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, ac roeddent yn hapus yn eu swyddi
- Roedd cofnodion cleifion yn drylwyr ac wedi'u dogfennu'n dda
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda ac yn hylan
- Roedd y rheoli'n agored ac yn gynhwysol

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Hyfforddiant ar reoli heintiau
- Gwneud sesiynau ymsefydlu staff mwy ffurfiol
- Gwirio silindrau ocsigen bob dydd

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Deintyddfa Emlyn yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yng Nghastellnewydd Emlyn a'r cylch. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, dau hylenydd a chwe nyrs ddeintyddol, a rheolwr practis sydd newydd gael ei benodi.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn hapus iawn gyda'r amrediad o wasanaethau a ddarperid gan y practis. Cawsom wybod bod yr amgylchedd mewnol yn ddymunol ac yn gysurus.

Roedd y cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm y practis. Dangosodd sylwadau'r cleifion eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.

Nododd cleifion bod parcio yn y practis yn gallu bod yn broblem fawr ar adegau gan nad oes digon o leoedd parcio ar gael.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 16 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

*Perffaith fel ag y mae*

*Dw i'n hapus dros ben gyda'r gwasanaeth dw i'n ei gael gan y deintydd a'r nyrsys. Diolch yn fawr iawn*

*Dim angen ei wella*

*Dw i wastad yn cael gwasanaeth bendigedig*

*Mae'r Staff bob amser yn gyfeillgar*

### Cadw'n iach

Gwelsom fod deunydd darllen hyrwyddo iechyd/addysgol ar gael i gleifion yn y practis, i'w helpu i ofalu am eu hiechyd a'u hylendid ceg eu hunain.

Dywedodd y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff deintyddol wedi rhoi cyngor a gwybodaeth iddynt ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Dywedodd pob un o'r cleifion ei fod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth roedd wedi'u cael yn y practis, a'i fod yn teimlo bod y staff wedi bod yn garedig ac yn groesawgar. Gwelsom staff yn rhyngweithio â chleifion mewn modd caredig, ystyriol a chwrtais.

Roedd desg y dderbynfa yn ei hystafell ddynodedig ei hun. Roedd gan y practis fan aros ar wahân. Roedd hyn yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas i gleifion a oedd naill ai'n 'cofrestru eu presenoldeb' neu'n cael trafodaethau dros y ffôn.

Dangosodd yr holiaduron a gwblhawyd gan y cleifion eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a thriniaeth a ddarperir ar eu cyfer. Nododd pob holiadur a gwblhawyd fod tîm y practis wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu triniaeth. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol, lle roedd cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth, wedi'u cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau er mwyn cynnal a hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG. Roedd gwybodaeth am brisiau triniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat ar gael i'w gweld yn y man aros. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gwybod am gost eu gofal a thriniaeth ddeintyddol.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd yr adborth a gawsom o'r holiaduron yn nodi bod y cleifion yn hapus ac yn cael eu hysbysu'n dda ynghylch y driniaeth a oedd yn cael ei darparu a'r gost. Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y practis ac roedd systemau TG wedi'u diogelu'n briodol.

Nid oes gan y practis dudalen we ar hyn o bryd, ond nodwyd y byddai'n ystyried y maes hwn ac yn ei ddatblygu yn y dyfodol. Argymhellir bod y practis yn adolygu canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol o ran y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Nododd 11 o'r bobl a gwblhaodd holiadur eu bod yn siaradwyr Cymraeg, a chawsom wybod gan y deintyddion fod canran uchel o siaradwyr Cymraeg wedi'u cofrestru gyda'r practis. Roedd yn gadarnhaol nodi bod nifer o aelodau'r staff yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog. Roedd gwybodaeth y practis yn addysgiadol ac yn darparu gwybodaeth allweddol am y practis. Yn anffodus,

roedd y daflen ar gael yn Saesneg yn unig. Felly, argymhellwn fod y practis yn datblygu taflen ddwyieithog er mwyn diwallu anghenion a bodloni gofynion y boblogaeth o siaradwyr Cymraeg sydd wedi'u cofrestru gyda'r practis.

## Gofal amserol

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol arnynt ar frys. Roedd y rhif ffôn ar gael drwy nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys ei arddangos ar fwrdd y tu ôl i ddrws mynedfa flaen y practis, ar negeseuon peiriant ateb y practis, ac yn nhaflen wybodaeth y practis.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Pe bai cleifion yn mynd i brofi oediadau, byddai'r staff yn dweud wrthynt am yr oediad hwn a hyd disgwyliedig yr oediad.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Canfuom fod gan bob deintydd a oedd yn gweithio yn y practis gofnodion o hanes meddygol y claf wrth law yn ystod pob ymgynghoriad, ac roedd y rhain yn cael eu diweddaru fel y bo angen pe bai unrhyw newidiadau wedi digwydd. Cadarnhawyd hyn drwy ymatebion a dderbyniwyd yn yr holiaduron. Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Roedd un toiled deuryw ar gael i'w ddefnyddio gan y cleifion a'r staff, ac roedd hwn wedi'i arwyddbostio'n eglur ac yn lân iawn. Roedd biniau a weithredir â throed yn y toiled a oedd yn hyrwyddo arfer da o ran rheoli ac atal heintiau. Yn ogystal â hyn, roedd poster wedi'i arddangos yn y toiled a oedd yn atgoffa pobl o'r dulliau cywir o olchi eu dwylo.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith a oedd yn ddilys ac yn briodol. Roedd y fynedfa i'r adeilad ar y llawr waelod, ac roedd yr holl ardaloedd i gleifion ar y lefel hon. Roedd pob drws a mynediad i'r toiledau yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Roedd gan y practis ei faes parcio ei hun, ond cawsom wybod gan dri chlaf ar y diwrnod bod parcio car yn broblem. Roedd gan y maes parcio nifer fechan o leoedd nad oedd yn ddigon i ateb galw

cyffredinol y practis, ac roedd ar riw a oedd yn peri ychydig o drafferth i bobl â phroblemau symudedd. Byddai'r mater hwn yn cael ei ddatrys yn y misoedd nesaf gan y byddai'r practis yn symud i safle newydd a oedd â'i faes parcio mawr dynodedig ei hun.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau dilys ar waith o ran rheoli cwynion. Roedd y polisi a'r weithdrefn gwyno yn berthnasol i driniaethau'r GIG a thriniaethau preifat.

Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn mynd ati i hysbysu pobl am ei weithdrefnau cwyno, oherwydd roedd y polisi cyfan wedi'i osod ar hysbysfwrdd yn y man aros. Hefyd, roedd gwybodaeth a oedd yn ymwneud â sefydliadau perthynol y gellid cysylltu â nhw pe bai claf eisiau cwyno/mynegi pryder, e.e. Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Roedd crynodeb o'r dulliau o gwyno/mynegi pryder hefyd ar gael yn nhaflen y practis.

Ychydig iawn o gwynion roedd y practis wedi'u cael ers iddo agor yn 2011. Gwelsom gofnodion o'r cwynion yr oedd y practis wedi'u cael, ac roedd yr ymatebion i'r cwynion wedi'u cofnodi'n briodol. Roedd y practis yn cymryd cwynion o ddifrif ac yn eu defnyddio fel modd o ddysgu a gwella'r gwasanaeth. Roedd gan y practis gardiau awgrymiadau ar gael i gleifion eu llenwi ac i ddarparu adborth ar y practis a'i wasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'r sylwadau/awgrymiadau hyn yn cael eu defnyddio gan staff y practis ar gyfer gwelliannau yn unig. Argymhellwn fod y practis yn gwerthuso'r holl sylwadau a ddaw i law ac yn defnyddio'r canfyddiadau mewn adroddiad ansawdd blynyddol a fydd yn hyrwyddo gonestrwydd a thryloywder. Bydd yr adroddiad ansawdd yn dangos y materion sydd wedi codi a'r dulliau sydd wedi'u defnyddio i fynd i'r afael â'r rhain a'u datrys.

Gwnaethom nodi bod gan y practis un polisi ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad. Gwnaethom argymell bod y practis yn rhoi polisïau ar wahân ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir bod y practis yn datblygu adroddiad ansawdd blynyddol, a ddylai fod ar gael i gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'r practis.

Sicrhau bod polisïau ar wahân ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod Deintyddfa Emlyn yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni'r holl safonau a rheoliadau perthnasol er mwyn hyrwyddo iechyd, diogelwch a llesiant cleifion. Roedd amgylchedd y practis yn cael ei gynnal a chadw i safon dda, ac roedd y ddwy ystafell driniaeth yn olau ac yn awyrog.

Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod angen gwneud rhai gwelliannau o ran sicrhau bod staff yn defnyddio'r arferion gorau mewn cyswllt ag atal a rheoli heintiau a monitro offer a stoc.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd y safle'n cael ei gynnal i safon uchel ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y deunydd llorio yn ystafell driniaeth dau wedi dechrau dod i ffwrdd ychydig ac angen rhywfaint o sylw adferol. Er nad yw hyn yn cyflwyno risg sylweddol ar hyn o bryd, gallai ddod yn broblem os na chaiff sylw. Roedd offer yn cael eu cynnal a chadw'n dda ar y cyfan, ac roedd profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn y practis.

Roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli trwy gydol yr adeilad ac roedd y rhain yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd dan gontract. Gellid gweld cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn glir.

Gwnaethom edrych ar y llyfr damweiniau, a nodi y dylai'r practis hefyd gynnwys damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn y llyfr damweiniau er mwyn hyrwyddo dysgu a datblygiad.

Roedd cemegau yn cael eu storio'n ddiogel ac nid oeddent yn cyflwyno unrhyw risgiau i'r cleifion. Roedd gan y practis system ar waith i reoli gwastraff. Roedd gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad oedd yn beryglus (cartref) yn cael eu gwaredu o dan gontract. Gwelsom fod y gwastraff wedi cael ei ddidoli i'r

bagiau/cynwysyddion lliw dynodedig yn unol â’r dull gwaredu cywir. Roedd y bin gwastraff clinigol wedi'i gloi'n briodol, ond nid oedd wedi'i ddiogelu'n ddigonol. Argymhellwn fod y bin gwastraff clinigol hwn yn cael ei ddiogelu'n well er mwyn ei wneud yn fwy diogel ac atal lladrad posibl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai biniau gwastraff clinigol gael eu diogelu'n ddigonol

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd y practis yn cynnal gwiriadau priodol o awtoclafau ddwywaith y dydd. Roedd dulliau glanhau â llaw yn cael eu defnyddio fel proses cyn sterileiddio. Roedd y system hon yn defnyddio'r weithdrefn gywir, gyda dwy sinc ar gael a golau archwilio'n cael ei roi ymlaen er mwyn craffu'n ofalus ar yr offer. Roedd cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio er mwyn hyrwyddo arferion gofal diogel ac effeithiol. Roedd cyfleusterau golchi dwylo pwrpasol ar gael yn yr ystafell ddadheintio ac yn yr ystafelloedd triniaeth.

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisïau atal heintiau a dadheintio dynodedig ar waith. Roedd y staff wedi darllen a llofnodi'r polisïau. Roedd y pynciau hyn hefyd wedi'u nodi fel rhan o broses ymsefydlu aelodau newydd o staff. Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw lofnodion ar ddiwedd y ddogfen ymsefydlu i nodi bod y sawl a oedd yn cael y sesiynau ymsefydlu wedi darllen a deall y polisi'n llwyr. Felly, argymhellwn fod y practis yn adolygu'r ddogfen ymsefydlu ac yn galluogi staff i lofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall yr holl bolisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys y rhai ar reoli heintiau a dadheintio.

Yn ystod ein gwerthusiad o gofnodion hyfforddi, gwnaethom nodi bod angen diweddaru hyfforddiant rhai o'r staff o ran rheoli heintiau. Argymhellwn fod y practis yn adolygu'r holl hyfforddiant ac yn sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant amserol ar atal a rheoli heintiau.

Gwelsom archwiliad rheoli heintiau a oedd wedi'i gwblhau, a oedd yn fanwl ac yn briodol i ofynion y practis. Argymhellwn fod y practis yn cynnal yr archwiliadau hyn bob blwyddyn er mwyn sicrhau arferion rheoli heintiau effeithiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellir bod y practis yn adolygu'r ddogfen ymsefydlu ac yn sicrhau bod staff newydd yn llofnodi ac yn dyddio'r ddogfen er mwyn sicrhau eu bod wedi darllen a deall y polisi/gweithdrefn ddynodedig.

Rhaid i'r holl staff gael hyfforddiant amserol ar atal a rheoli heintiau.

Argymhellir bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau blynyddol.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis yr offer gofynnol ar gael i gynorthwyo pobl mewn argyfwng. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo) yn y practis. Roedd y cyffuriau hyn yn cael eu storio'n saff ac yn ddiogel. Gwelsom arfer da gyda chyffuriau'n cael eu storio mewn pocedi dynodedig o fewn bag argyfwng pwrpasol, a oedd wedi'i labelu'n glir er mwyn ei ddefnyddio'n hawdd mewn argyfwng.

Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod y practis yn gwirio'r lefelau ocsigen bob wythnos a gwnaethom argymell bod lefelau ocsigen yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd. Gwnaethom hefyd nodi y dylid nodi'r gwaith o wirio padiau'r deffibriliwr ar restr wirio reolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben. Roedd gan y practis becyn ar gyfer gorlifoedd o fercwri ar gael, ond roedd ei ddyddiad dod i ben wedi mynd heibio. Gwnaethom argymell y dylai'r practis hefyd gofnodi dyddiadau dod i ben pob eitem fel padiau diffibriliwr a phecynnau ar gyfer gorlifoedd o fercwri.

Roedd y staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant o ran dadebru cardio-pwlmonaidd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod lefelau ocsigen yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd.

Dylid rhoi padiau'r diffibriliwr a phecynnau ar gyfer gorlifoedd o fercwri ar restr fonitro er mwyn sicrhau nad yw'r dyddiadau dod i ben yn mynd heibio

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion ar waith. Dangosodd y cofnodion hyfforddi fod yr holl staff wedi cael

hyfforddiant diogelu priodol. Yn ystod trafodaethau â'r staff, gwnaethant ddangos eu bod yn ymwybodol o'r prosesau i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon ynghylch diogelu naill ai oedolion neu blant.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd yr holl staff ar wahân i un wedi cael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd cais wedi'i wneud am dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr un aelod staff hwnnw, ond nid oedd wedi'i dychwelyd. Gwnaethom drafod arferion recriwtio yn y gwasanaeth, a gwnaethom gynghori y dylai'r practis sicrhau bod pob ymgeisydd ar gyfer swyddi gwag yn y dyfodol yn llenwi ffurflen gais a bod dau eirda'n cael eu derbyn, gydag un o'r rheini wedi'i gyflwyno gan y cyflogwr diwethaf lle bynnag y bo'n briodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Cadarnhau i AGIC bod y gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr un aelod o staff hwnnw wedi'i gwblhau

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwerthuswyd y ddwy ystafell driniaeth fel rhan o'r broses arolygu, a chanfuwyd bod gan y ddwy yr offer priodol sydd eu hangen i ddarparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd yr offer radiolegol yn cael eu cynnal i safonau gweithio da. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) mewn ffordd ddiogel. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i'w defnyddio.

Roedd yr unedau cywasgu a ddefnyddiwyd yn y practis yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd a gwelwyd y tystysgrifau. Gwnaethom hefyd weld gwybodaeth a oedd yn ymwneud â'r labordai deintyddol a ddefnyddiwyd gan y practis.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperid yn barhaus. Cawsom wybod hefyd fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, lle y caiff staff godi a thrafod gofynion clinigol cleifion.

## Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Fe'n hysbyswyd bod adolygiadau cymheiriaid anffurfiol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd. Argymhellwn fod y practis yn gwneud yr adolygiadau cymheiriaid hyn yn fwy ffurfiol er mwyn galluogi gwerthusiadau clir a chynhwysfawr i gael eu gwneud.

Roedd y practis yn ystyried defnyddio System y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. Mae hwn yn ddull o hunanwerthuso, sy'n galluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio ac sy'n galluogi'r practis i ystyried yr ansawdd a'r gofal a ddarperir mewn amrywiaeth o feysydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn cynnal adolygiadau cymheiriaid ffurfiol ac yn cofnodi'r adolygiadau hyn yn briodol

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cyfrifiaduron ar gael yn y practis i staff, a phob sgrin wedi'i gosod mewn lleoliadau disylw i ffwrdd o ardaloedd cyhoeddus er mwyn hyrwyddo preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion.

## Cadw cofnodion

Yn ystod yr arolygiad, edrychwyd ar samplau o gofnodion cleifion. Roedd safon y broses cadw cofnodion yn rhagorol ac yn dangos bod cysyniad, opsiynau triniaeth, hanes meddygol a hybu iechyd wedi'u trafod yn ystod yr ymgynghoriadau. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel. Roedd polisïau diogelu data hefyd ar gael yn y practis.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd yr holl staff yn hapus ac yn fodlon ar eu rolau yn y practis ar y cyfan. Roedd y ddau brif ddeintydd yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddatblygu'r gwasanaeth ac i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i gleifion.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol da yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi a gwnaethant ddweud wrthym y byddai'r rheolwyr yn mynd ati i wrando ar eu holl bryderon/sylwadau a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r practis wedi cael ei reoli gan y deintyddion presennol ers 2011. Roedd y safle newydd yn cael ei ailwampio ar y pryd i gynyddu nifer yr ystafelloedd triniaeth a'r cyfleusterau a oedd ar gael. Rhagwelwyd y byddai'r safle newydd ar gael iddynt ei ddefnyddio yn ystod chwarter olaf y flwyddyn hon. Roedd y staff wedi cyfrannu at ddyluniad a threfn yr adeilad newydd ac yn edrych ymlaen at y cam nesaf hwn.

### Staff ac adnoddau

#### Y gweithlu

Cawsom wybod bod y tîm staff yn cwrdd yn rheolaidd; fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw. Gwnaethom gynghori y dylid cadw cofnodion y cyfarfodydd hyn er mwyn hyrwyddo gonestrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.

Dangosodd y cofnodion staff a welwyd gennym nad oedd staff yn cael arfarniadau blynyddol mewn modd amserol. Argymhellwn fod pob aelod o staff yn cael arfarniad blynyddol er mwyn trafod perfformiad a datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Nid oedd unrhyw gofnodion ar gael o asesiadau unigol ar gyfer cyfarpar sgrin arddangos. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu bod yn sicr bod peryglon posibl wedi'u nodi a bod camau wedi'u cymryd i leihau risgiau. Cynghorir y practis i gynnal yr asesiadau hyn ar adegau amserol er mwyn hyrwyddo lles y staff a gyflogir yn y practis.

Roedd yr yswiriant indemniad gofynnol ar gael ac wedi'i arddangos yn y practis. Trafodwyd tystysgrifau cofrestru AGIC, a nodwyd bod y rhain yn ddilys.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Cofnodi a chadw cofnod o gyfarfodydd staff.

Rhaid i'r staff dderbyn arfarniadau blynyddol mewn modd amserol.

Argymhellwn fod yr holl staff yn cael asesiad o gyfarpar sgrin arddangos yn rheolaidd, fel yr argymhellir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon dybryd a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Deintyddfa Emlyn

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Deintyddfa Emlyn

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Argymhellir bod y practis yn datblygu adroddiad ansawdd blynyddol, a ddylai fod ar gael i gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'r practis.<br><br>Sicrhau bod polisïau ar wahân ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Bydd adroddiad ansawdd blynyddol ffurfiol yn cael ei lunio a bydd ar gael i gleifion sydd wedi cofrestru gyda'r practis.<br><br>Mae'r polisi cyfunol gwreiddiol ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad wedi'i wahanu bellach. | Kirstie Townsend | Ionawr 2018<br><br>Cwblhawyd Awst 2017 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai biniau gwastraff clinigol gael eu diogelu'n | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd | Mae biniau gwastraff clinigol wedi'u | Kirstie Townsend | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ddigonol | a diogelwch | diogelu â chadwyn a chlo clap | | Awst 2017 |
| Argymhellir bod y practis yn adolygu'r ddogfen ymsefydlu ac yn sicrhau bod staff newydd yn llofnodi ac yn dyddio'r ddogfen er mwyn sicrhau eu bod wedi darllen a deall y polisi/gweithdrefn ddynodedig.<br><br>Rhaid i'r holl staff gael hyfforddiant amserol ar atal a rheoli heintiau.<br><br>Argymhellir bod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau blynyddol. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Mae'r ddogfen ymsefydlu wedi'i diwygio i ganiatáu aelodau newydd o staff i'w harwyddo a'i dyddio i gadarnhau bod yr ymsefydlu wedi'i gwblhau.<br><br>Bydd pob aelod staff yn cael ei gofrestru ar gwrs rheoli heintiau priodol.<br><br>Mae archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 Deoniaeth Cymru wedi'i gwblhau ar gyfer 2017 a bydd yn cael ei gynnal bob blwyddyn. | Kirstie Townsend<br><br>Kirstie Townsend<br><br>Kirstie Townsend | Cwblhawyd Awst 2017<br><br>O fewn chwe mis<br><br>Bydd yn cael ei gwblhau ym mis Ebrill 2018 ac yn flynyddol wedi hynny |
| Sicrhau bod lefelau silindrau ocsigen yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd.<br><br>Dylid rhoi padiau'r diffibriliwr a phecynnau ar gyfer gorlifoedd o fercwri ar restr fonitro er mwyn sicrhau nad yw'r dyddiadau dod i ben yn mynd | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Mae llyfrau cofnodi wedi'u diwygio i sicrhau bod lefelau'r silindrau ocsigen yn cael eu gwirio a'u cofnodi bob dydd.<br><br>Mae padiau'r diffibriliwr a'r pecynnau ar gyfer gorlifoedd o fercwri wedi'u newid ac wedi'u hychwanegu at y rhestr fonitro er mwyn sicrhau nad yw eu dyddiadau | Kirstie Townsend<br><br>Kirstie Townsend | Diweddariad 24 Gorffennaf 2017<br><br>Derbyniwyd Awst 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| heibio | | dod i ben yn mynd heibio. | | |
| Cadarnhau i AGIC bod y gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr un aelod o staff hwnnw wedi'i gwblhau | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl | Mae tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cyrraedd ar gyfer yr aelod tîm a benodwyd yn ddiweddar ac mae hyn wedi'i ddiweddaru gan AGIC | Kirstie Townsend | Cyhoeddwyd 22 Gorffennaf 2017 |
| Argymhellwn fod y practis yn cynnal adolygiadau cymheiriaid ffurfiol ac yn cofnodi'r adolygiadau hyn yn briodol | 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | Bydd y practis yn cynnal adolygiadau cymheiriaid blynyddol, a bydd y rhain yn cael eu cofnodi a'u gweithredu'n briodol. | Neil Jones ac Arwel Jones | Bydd yn cael ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2018 a bob chwe mis ar ôl hynny |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Cofnodi a chadw cofnod o gyfarfodydd staff.<br><br>Rhaid i'r staff dderbyn arfarniadau blynyddol mewn modd amserol | 7.1 Y gweithlu | Bydd cyfarfodydd tîm misol yn cael eu cofnodi a'u gweithredu fel y bo angen.<br><br>Bydd arfarniadau staff a diweddariadau misol yn cael eu gwneud yn fwy ffurfiol. | Kirstie Townsend<br><br>Kirstie Townsend | Cyfarfodydd misol o 7 Awst 2017 ymlaen<br><br>Wedi'i drefnu ar gyfer 2 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Argymhellwn fod yr holl staff yn cael asesiad o gyfarpar sgrin arddangos yn rheolaidd, fel yr argymhellir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | | Bydd asesiadau o gyfarpar sgrin arddangos yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o staff ac yn cael eu cofnodi. | Kirstie Townsend | Hydref 2017<br><br>Bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn Ionawr 2018. |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Neil Jones ac Arwel Jones

## Swydd: Prif ddeintyddion y practis

## Dyddiad: 26 Awst 2017